



Cyngor
Osteopathig
Cyffredinol

Canllawiau ar Wrandawiadau a Sancsiynau

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol

020 7357 6655

regulation@osteopathy.org.uk

osteopathy.org.uk

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Rhan Un – Gwrandawiadau	4
Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol	4
Trosolwg o broses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor	4
<i>Canfyddiadau o ffeithiau</i>	4
<i>Canfyddiad am honiad</i>	5
<i>Canfyddiad am sancsiwn</i>	5
Y Safonau Ymarfer Osteopathig	5
Canfyddiadau sydd ar gael i'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol	6
<i>Ymddygiad Proffesiynol Annerbyniol</i>	6
<i>Anghymhwysedd Proffesiynol</i>	6
<i>Trosedd</i>	7
<i>Rhybuddion am droseddau</i>	7
<i>Atgyfeiriad i'r Pwyllgor Iechyd</i>	7
<i>Budd y cyhoedd</i>	7
<i>Cymesuredd</i>	8
<i>Mewnwelediad ac Adferiad</i>	8
<i>Nodweddion Lliniaru a Gwaethygu</i>	8
<i>Geirdaon a thystebau</i>	9
<i>Yr amser a dreuliwyd o dan orchymyn atal dros dro</i>	9
<i>Rhesymau dros benderfyniadau</i>	Error! Bookmark not defined.
Amgylchiadau lle mae'n debygol y bydd angen cymryd camau mwy difrifol	Error! Bookmark not defined.
<i>Y ddyletswydd gonestrwydd</i>	Error! Bookmark not defined.
<i>Lleisio pryderon</i>	Error! Bookmark not defined.
<i>Anonestrwydd</i>	Error! Bookmark not defined.
<i>Camymddwyn rhywiol</i>	Error! Bookmark not defined.
Cyflwyno Cyngor lle na cheir canfyddiad o Ymddygiad Proffesiynol Annerbyniol ..	Error! Bookmark not defined.
Rhan Dau – Sancsiynau	Error! Bookmark not defined.
Cerydd	Error! Bookmark not defined.
Gorchymyn Amodau Ymarfer	14
Atal cofrestriad yr osteopath dros dro	15
Tynnu enw'r osteopath oddi ar y Gofrestr	16

Cyflwyniad

Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol yw'r rheoleiddiwr statudol ar gyfer y proffesiwn osteopathig yn y Deyrnas Unedig.

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â swyddogaeth addasrwydd i ymarfer y Cyngor ac yn benodol gwaith ei Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a'u bwriad yw hysbysu partïon mewn gwrandawriad ynghylch agwedd y Cyngor yn ystod y gwrandawriad ac wrth osod sancsiynau. Felly, mae'r canllawiau hyn wedi'u rhannu'n ddwy ran ar wahân: y weithdrefn a ddilynir yn y gwrandawriad a'r fframwaith a ddefnyddir gan y Cyngor i wneud penderfyniadau am sancsiynau.

Gall unrhyw un sy'n rhan o'n gwrandawriadau addasrwydd i ymarfer, neu sydd â diddordeb ynddynt, gan gynnwys y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol, osteopathiaid a'u cynrychiolwyr cyfreithiol, cyrff proffesiynol ac aelodau'r cyhoedd, eu defnyddio.

Nid yw'r canllawiau hyn yn cynnwys popeth, ac ni fwriedir iddynt gyfyngu ar allu'r Pwyllgor i fynegi ei farn ei hun. Bydd y Pwyllgor yn ystyried pob achos ar sail ei rinweddau penodol ac yn gosod sancsiynau'n unol â hynny.

Bwriedir i'r canllawiau fod yn 'ddogfen fyw' a chânt eu diwygio o bryd i'w gilydd, er mwyn ystyried datblygiadau mewn cyfraith achos ac adborth gan randdeiliaid, gan gynnwys yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r canllawiau'n berthnasol i bob achos newydd ar ôl 31 Ionawr 2018.

Datganiad Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae GOsC wedi ymrwymo i sicrhau bod prosesau ar gyfer delio â phryderon am osteopathiaid yn gyfiawn, yn deg ac yn rhydd o wahaniaethu. Mae'n ofynnol i bawb sy'n ymwneud â'n prosesau fod yn ymwybodol o ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol a chadw ati. Dylai penderfyniadau'r Pwyllgor fod yn gyson ac yn ddiduedd ac yn cydymffurfio â nodau Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i GOsC roi sylw dyledus i'r angen i:

- a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd gan neu o dan y Ddeddf Cydraddoldeb;
- b) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydyn nhw'n ei rhannu;
- c) meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydyn nhw'n ei rhannu.

Rhan Un – Gwrandawiadau

Y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

1. Caiff y gweithdrefnau a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor eu llywodraethu'n bennaf gan y Ddeddf Osteopathiaid (y Ddeddf) a Rheolau'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol) (Gweithdrefn) 2000 (y Rheolau). Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 a datblygiadau mewn cyfraith achos yn effeithio ar sut y mae'r Pwyllgor yn gweithredu hefyd.
2. Mae pob gwrandawriad gan y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol yn digwydd gerbron panel sy'n cynnwys tri aelod o'r Pwyllgor. Bydd o leiaf un aelod yn osteopath ac un yn berson lleeg. Rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod lleeg. Caiff y gwrandawiadau eu cynnal yn gyhoeddus fel arfer, oni bai bod rheswm pam y mae'n rhaid cynnal rhan o'r gwrandawriad neu'r gwrandawriad cyfan yn breifat. Mae hyn yn golygu y gall aelodau'r cyhoedd, gan gynnwys y wasg, fod yn bresennol.
3. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi nifer o Nodiadau Ymarfer i gynorthwyo gwaith y Pwyllgor a'r rheini sy'n mynd i wrandawriad. Maent ar gael ar ein gwefan: osteopathy.org.uk/standards/complaints/guidance-practice-notes-and-policies
4. Mae'r Pwyllgor¹ yn ystyried honiad yn erbyn osteopath sy'n perthyn i'r categorïau canlynol:
 - Ymddygiad Proffesiynol Annerbyniol
 - Anghymhwysedd Proffesiynol
 - Euogfarn (sydd â pherthnasedd o sylwedd).

Trosolwg o broses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor

Mae tri cham i'r broses gwneud penderfyniadau:

Canfyddiad o ffeithiau

5. Lle y bo anghytundeb ynghylch rhai neu bob un o'r ffeithiau a honnir yn erbyn yr osteopath, bydd angen i'r Pwyllgor ystyried yn gyntaf a yw'n credu bod y ffeithiau hynny wedi'u profi. Cyfrifoldeb y Cyngor yw eu profi. Y prawf safonol sy'n berthnasol yw 'pwysau tebygolrwydd'. Mae hyn yn golygu mai dim ond os yw'n ystyried ei bod yn fwy tebygol bod y ffaith a honnir wedi digwydd na'i bod heb ddigwydd y bydd y Pwyllgor yn ystyried bod y ffaith a honnir wedi'i 'phrofi'.
6. Gall yr Aseswr Cyfreithiol roi cyngor cyfreithiol i'r Pwyllgor a bydd y Pwyllgor yn mynd i sesiwn breifat i ystyried y canfyddiadau o ffeithiau. Os yw'r Pwyllgor yn credu nad yw unrhyw rai o'r ffeithiau wedi'u profi, bydd yn gofyn i'r partion ddychwelyd i ystafell y gwrandawriad ac yn cyhoeddi'r penderfyniad yn ffurfiol, a bydd yr achos yn dod i ben. Os bydd y Pwyllgor yn credu bod rhai neu bob un o'r ffeithiau wedi'u profi, bydd yn gofyn i'r partion ddychwelyd i ystafell y gwrandawriad fel y gall y Cadeirydd gyhoeddi'r penderfyniad a'r rhesymau yn ffurfiol, ac yna bydd y gwrandawriad yn symud ymlaen i Gam 2.

¹ Y Pwyllgor Iechyd sy'n ystyried cyhuddiadau iechyd, ac nid y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol.

Canfyddiad am honiad

7. Unwaith y bydd canfyddiadau'r Pwyllgor o ffeithiau wedi'u cyhoeddi, gwahoddir Cyflwynydd Achos y Cyngor a'r Person Cofrestredig i wneud cyflwyniadau ar ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol neu a yw euogfarn droseddol yn berthnasol i ymarfer osteopathi. Mae hyn yn fater ar gyfer barn y Pwyllgor ac nid yw'n fater o brawf.
8. Gall yr Aseswr Cyfreithiol roi cyngor cyfreithiol i'r Pwyllgor ac yna bydd y Pwyllgor yn cynnal sesiwn breifat i ystyried ei ganfyddiadau. Ar ôl i'r Pwyllgor ddod i benderfyniad, gwahoddir y partïon i ystafell y gwrandawriad a bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn cyhoeddi'r penderfyniad.

Canfyddiad am sancsiwn

9. Os bydd y Pwyllgor yn canfod bod y ffeithiau yn cynrychioli ymddygiad proffesiynol annerbyniol neu anghymhwysedd proffesiynol neu fod euogfarn droseddol yn berthnasol i ymarfer osteopathi, yna bydd yn gwrandao ar unrhyw amgylchiadau ychwanegol cyn y cyhuddiadau ac yn derbyn tystiolaeth ynghylch cymeriad a hanes blaenorol yr osteopath gan Gyflwynydd Achos y Cyngor ynghyd ag unrhyw wybodaeth liniarol gan gynrychiolydd yr osteopath. Bydd yn ystyried cyflwyniadau gan y naill barti a'r llall hefyd ynghylch y sancsiwn i'w osod.
10. Yna bydd yr Aseswr Cyfreithiol yn rhoi cyngor cyfreithiol i'r Pwyllgor, cyn i'r Pwyllgor drafod yn breifat pa sancsiwn sy'n briodol i'w osod. Bydd asesiad y Pwyllgor yn dibynnu ar ffeithiau ac amgylchiadau unigol pob achos. Yna bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi'r sancsiwn yn gyhoeddus.
11. Os bydd y Pwyllgor yn canfod bod cyhuddiad yn erbyn osteopath yn ddilys, rhaid iddo osod un o bedwar sancsiwn ar yr osteopath:
 - cerydd
 - gosod amodau ar ymarfer yr osteopath
 - atal dros dro o'r Gofrestr
 - tynnu oddi ar y Gofrestr.

Y Safonau Ymarfer Osteopathig

12. Mae'r *Safonau Ymarfer Osteopathig* yn nodi'r safonau ymddygiad, moeseg a chymhwysedd sy'n ofynnol gan osteopathiaid. Mae canllawiau ategol wedi'u cynnwys mewn perthynas â phob safon. Mae'r Safonau'n dwyn ynghyd y Safon Hyfedredd a'r Cod Ymarfer, sy'n ofynnol o dan Ddeddf Osteopathiaid 1993.²
13. Mae'r Safonau'n cwmpasu'r agweddau sylfaenol ar rôl osteopath sy'n ofynnol ar gyfer ymarfer osteopathi mewn modd diogel, cymwys a moesegol. Felly rhaid i'r Pwyllgor sicrhau ei fod yn gyfarwydd â'r Safonau wrth wneud penderfyniad ynghylch ymddygiad proffesiynol annerbyniol a/neu anghymhwysedd proffesiynol a sancsiwn, fel y gall wneud penderfyniadau priodol, cymesur a theg. Fodd bynnag, nid yw achos

² Mae'r Safon Hyfedredd a'r Cod Ymarfer 2019 yn berthnasol i unrhywgyhuddiadau sy'n codi ar neu ar ôl 1 Medi 2019. Ar gyfer achosion a ddigwyddodd cyn y dyddiad hwn, dylai'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol/Pwyllgor Iechyd weithredu ar sail argraffiad 2012 o'r Safon a'r Cod.

o fethu â dilyn y Safonau'n golygu y bydd camau'n cael eu cymryd yn erbyn osteopath yn awtomatig.

Canfyddiadau sydd ar gael i'r Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol

Ymddygiad Proffesiynol Annerbyniol

14. Disgrifir ymddygiad proffesiynol annerbyniol yn y Ddeddf fel 'conduct which falls short of the standard required of a registered osteopath'. Wrth arfer ei farn ynghylch a yw'r ffeithiau a brofwyd yn cynrychioli ymddygiad proffesiynol annerbyniol, dylai'r Pwyllgor ystyried y canllawiau barnwrol yn *Spencer v Cyngor Osteopathig Cyffredinol*³ sef a fyddai ffeithiau o'r fath, i ddinesydd deallus cyffredin, yn cyfleu ensyniad o fai moesol ac elfen o warth.
15. Archwiliwyd y cysyniad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol ymhellach yn *Shaw v Cyngor Osteopathig Cyffredinol*⁴. Yn ystod ei ddyfarniad, dywedodd Mr Justice Kerr y dylai'r llys ymdrin â'r cysyniad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol yn yr un modd ag y gwnaeth y llys yn achos *Spencer*, i'r graddau nad yw'r syniad o fai moesol yn rhoi sglein dianghenraid ar yr iaith statudol ond, yn hytrach, mae'n llifo'n uniongyrchol o ystyr y gair 'ymddygiad'. Yn unol â hynny, rhaid i'r methiannau a nodir gan y Pwyllgor gyfleu elfen o warth moesol (er nid lefel uchel ohono).
16. Rhaid i'r ymddygiad fod yn 'ddifrifol' i gyrraedd y trothwy gofynnol. Fodd bynnag, er mwyn i'r ymddygiad dan sylw fod yn ymddygiad proffesiynol annerbyniol, does dim rhaid iddo fod mor ddifrifol fel y byddai rhoi cerydd yn rhy drugarog.

Anghymhwysedd Proffesiynol

17. Er nad yw anghymhwysedd proffesiynol wedi'i ddiffinio yn y Ddeddf, dylai'r Pwyllgor ystyried y Safonau wrth benderfynu a yw'r osteopath wedi disgyn islaw'r safonau hyfedredd sy'n ofynnol ar gyfer ymarfer osteopathi mewn modd cymwys a diogel.
18. Gall anghymhwysedd proffesiynol fod yn gysyniad eang (ac mae gorgyffwrdd sylweddol gydag ymddygiad proffesiynol annerbyniol) ac mae'n estyn i faterion fel cadw cofnodion gwael a chynnal rhwymedigaethau proffesiynol yn wael. Fodd bynnag, byddai un camgymeriad ar ei ben ei hun yn annhebygol o fod yn ddigon difrifol i fod yn enghraifft o anghymhwysedd proffesiynol.
19. Nid yw'n angenrheidiol i'r Pwyllgor benderfynu a yw pob manylyn penodol unigol a brofwyd yn enghraifft o anghymhwysedd proffesiynol. Dylai ystyried a yw'r holl fanylion a brofwyd gyda'i gilydd yn enghraifft o anghymhwysedd proffesiynol⁵.
20. Yn ogystal, gallai'r egwyddorion a ganlyn o gyfraith achosion mewn cynlluniau statudol rheoleiddiol proffesiynol cymaradwy gynorthwyo'r Pwyllgor i benderfynu a yw'r manylion a brofwyd yn gyfystyr ag anghymhwysedd proffesiynol:

³ [2012] Uchel Lys Cymru a Lloegr 3147 (Gweinyddu)

⁴ [2015] Uchel Lys Cymru a Lloegr 2721 (Gweinyddu)

⁵ *Vranicki v Bwrdd Cofrestru Penseiri* [2007]

- mae'n gysyniadol wahanol i ymddygiad proffesiynol annerbyniol ac esgeulustra ac mae'n golygu safon o berfformiad proffesiynol sy'n annerbyniol o isel ac sydd wedi'i arddangos (ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol) drwy gyfeirio at sampl teg o waith yr osteopath
- byddai achos unigol o driniaeth esgeulus, oni bai ei fod yn ddifrifol iawn, yn annhebygol o fod yn anghymhwysedd proffesiynol
- nid yw'n angenrheidiol nac yn briodol estyn y dadansoddiad o anghymhwysedd proffesiynol er mwyn cwmpasu materion sy'n ymddygiad proffesiynol annerbyniol.⁶

Trosedd

21. Mae 'Convicted of a Criminal Offence in the United Kingdom (UK)' yn cyfeirio at benderfyniad gan lys troseddol yn y DU. Gall y Pwyllgor ystyried unrhyw euogfarn a atgyfeirir iddo, hyd yn oed os nad oedd y drosedd yn ymwneud ag ymarfer yr osteopath.
22. Nid diben ystyried euogfarn yw cosbi'r osteopath am yr eildro. Nod y Pwyllgor yw diogelu budd y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd yn canfod nad oes gan y drosedd dan sylw berthnasedd o sylwedd i addasrwydd yr osteopath dan sylw i ymarfer osteopathi.

Rhybuddion am droseddau

23. Gall rhybudd am drosedd arwain at gyhuddiad bod y person cofrestredig wedi bod yn euog o Ymddygiad Proffesiynol Annerbyniol.

Atgyfeiriad i'r Pwyllgor Iechyd

24. Os yw'n ymddangos i'r Pwyllgor bod gallu osteopath i ymarfer osteopathi wedi'i niweidio'n ddifrifol oherwydd ei gyflwr corfforol neu feddyliol, gall atgyfeirio'r achos i'r Pwyllgor Iechyd i wneud penderfyniad, p'un a yw'r cyhuddiad wedi'i brofi neu sancsiwn wedi'i osod ai peidio.
25. Wrth ddefnyddio'i ddisgresiwn, dylai'r Pwyllgor ystyried holl amgylchiadau'r achos, gan gynnwys cwmpas y pwerau sydd ar gael i'r Pwyllgor Iechyd; ac a allai'r achos alw am sancsiwn i dynnu'r unigolyn oddi ar y gofrestr ai peidio.

Budd y cyhoedd

26. Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015 wedi diwygio swyddogaethau statudol y Cyngor sy'n golygu bod gan y Cyngor amcan cyffredinol i ddiogelu'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ceisio cyflawni nifer o amcanion gan gynnwys cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathi a hybu a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol aelodau'r proffesiwn.⁷
27. Mae'n ofynnol bod y Pwyllgor yn ymddwyn yn unol â budd y cyhoedd, sy'n cynnwys:
 - a. diogelu cleifion, cydweithwyr a'r cyhoedd yn ehangach rhag y risg o niwed

⁶ Calhaem v Cyngor Meddygol Cyffredinol [2008]

⁷ Nodyn Ymarfer: 2015/1 Y ddyletswydd i weithredu er budd y cyhoedd

- b. cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathi
- c. datgan a chynnal safonau ymddygiad a chymhwysedd priodol ymysg gweithwyr proffesiynol osteopathig.

Cymesuredd

28. Wrth benderfynu pa sancsiwn i'w osod, rhaid i'r Pwyllgor weithredu'r egwyddor o gymesuredd, gan bwyso a mesur budd y cyhoedd gyda budd yr osteopath. Dylai'r Pwyllgor ystyried y sancsiynau sydd ar gael gan ddechrau gyda cherydd, a dewis y sancsiwn lleiaf llym a fydd yn ymdrin yn ddigonol â materion yr achos dan sylw, gan gynnwys patrwm, natur a difrifoldeb y ffeithiau a brofwyd. Mae budd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol hefyd:
- a. bod yr osteopath yn cael gwrandawriad teg a diduedd a
 - b. mewn achosion priodol, ei fod yn cael cyfle i ddychwelyd i ymarfer diogel a chymwys.

Mewnwelediad ac Adferiad

29. Dylid rhoi'r ystyr bob dydd i fewnwelediad ac adferiad. Dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar a oes tystiolaeth wirioneddol bod yr osteopath wedi gallu edrych yn ôl ar ei ymddygiad gyda llygad beirniadol a'i fod wedi cydnabod bai, wedi mynegi edifeirwch ac/neu wedi ymddiheuro. I bob pwrpas, mae angen i'r osteopath ddangos i'r Pwyllgor bod rheswm gwirioneddol dros gredu ei fod wedi dysgu gwers yn sgil y profiad.
30. Fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol o wahaniaethau diwylliannol o ran sut y mae osteopath yn mynegi mewnwelediad ac ymddiheuriad, gan gynnwys arwyddion dieiriau fel diffyg cyswllt llygad a mynegiant yr wyneb.

Nodweddion Lliniaru a Gwaethygu

31. Bydd angen i'r Pwyllgor ystyried a gwerthuso'n ofalus y nodweddion lliniaru a gwaethygu ym mhob achos, gan eu pwyso a'u mesur.
32. Bydd y Pwyllgor yn llai abl i ystyried ffactorau lliniaru pan fydd y pryder yn ymwneud â diogelwch cleifion, neu os yw'r cyhuddiad yn fwy difrifol, nag y bydd os yw'r pryder yn ymwneud â hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.
33. Mae ffactorau gwaethygu'n debygol o arwain y Pwyllgor i ystyried bod angen cymryd camau mwy difrifol⁸.

Gallai ffactorau lliniaru gynnwys:

- a. tystiolaeth o'r amgylchiadau a arweiniodd at y digwyddiadau dan sylw
- b. tystiolaeth o ymddygiad da yn dilyn y digwyddiad dan sylw, yn enwedig unrhyw gamau adfer sy'n mynd i'r afael â'r pryderon am eu hymddygiad neu gymhwysedd
- c. tystiolaeth o gymeriad da blaenorol yr osteopath

⁸ Ewch i'r adran ar amgylchiadau lle ystyrir camau mwy difrifol

- d. tystiolaeth bod edifeirwch wedi'i ddangos/o fewnwelediad/bod ymddiheuriad wedi'i roi
- e. materion personol, fel straen sy'n ymwneud â gwaith neu amgylchiadau eithafol nad ydynt yn bodoli mwyach
- f. dim niwed gwirioneddol neu bosibl i gleifion neu'r cyhoedd
- g. yr amser a aeth heibio ers y digwyddiad ac absenoldeb unrhyw gyhuddiad dilynol
- h. tystiolaeth o'r camau a gymerwyd i osgoi ailadrodd
- i. datblygiad proffesiynol parhaus a chyrsiau perthnasol wedi'u cwblhau gan yr osteopath.

Gallai'r nodweddion gwaethygu gynnwys:

- a. camddefnydd o safle proffesiynol yr osteopath
- b. ymddygiad rheibus, yn enwedig lle bydd hyn yn ymwneud â chleifion sy'n agored i niwed
- c. gwahaniaethu yn erbyn cleifion neu gydweithwyr
- d. camymddwyn rhywiol
- e. methiant i leisio pryderon / diffyg gonestrwydd
- f. anonestrwydd
- g. canfyddiadau addasrwydd i ymarfer blaenorol
- h. amharodrwydd i ymddiheuro neu dderbyn camgymeriadau
- i. agwedd ac ymddygiad yr osteopath yn y gwrandawriad.

Geirdaon a thystebau

34. Yn aml, bydd osteopath yn cyflwyno geirdaon a thystebau i gefnogi ei safle yn y gymuned a/neu'r proffesiwn osteopathig. Mater i'r Pwyllgor yw'r ystyriaeth a roddir i dystebau o'r fath. Ni ddylai diffyg geirdaon neu dystebau o'r fath gyfrif yn erbyn yr osteopath. Wrth ystyried geirdaon o'r fath, dylai'r Pwyllgor ystyried ffactorau fel pa mor ddiweddar ydynt ac a yw eu llunwyr yn ymwybodol o'r cyhuddiadau yn erbyn yr osteopath ac y byddai'r llythyrau'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor at ddibenion lliniaru.

Yr amser a dreuliwyd o dan orchymyn atal dros dro

35. Yr egwyddor gyffredinol yw nad yw'r amser a dreulir gan berson cofrestredig sy'n destun gorchymyn dros dro yn gyfystyr ag amser a dreulir yn y ddalfa.⁹ Fodd bynnag, gall y Pwyllgor ystyried yr amser a dreuliwyd gan y person cofrestredig a ataliwyd o dan Orchymyn Atal Dros Dro fel ffactor perthnasol wrth ystyried beth yw'r sancsiwn priodol a chymesur.¹⁰ Er enghraifft, os yw'r sancsiwn priodol yn gyfnod byr o atal, gall y ffaith y bu cyfnod dros dro o atal o ran cofrestriad y person cofrestredig fod yn ffactor perthnasol. Fodd bynnag, dylai'r Pwyllgor gadw mewn cof, mewn gwrandawriad gorchymyn dros dro, y dylai ymwneud yn bennaf â'r asesiad o'r perygl a gyflwynir gan yr osteopath. Mae hyn yn wahanol i'r ffactorau a

⁹ Gweler er enghraifft: Adul-Razzak v Cyngor Fferyllol Cyffredinol [2016]

¹⁰ Kamberova v Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth [2016]

ystyriir gan y Pwyllgor wrth benderfynu ar y sancsiwn priodol i'w osod yn dilyn ei ganfyddiadau ar y cyhuddiad.

36. Beth bynnag fo'r sefyllfa, os bydd y Pwyllgor yn penderfynu mai'r sancsiwn priodol yw tynnu'r unigolyn oddi ar y gofrestr, yna mae'r ffaith y gosodwyd gorchymyn atal dros dro yn llai perthnasol.

Rhesymau dros benderfyniadau

37. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor roi rhesymau dros ei benderfyniadau ar bob cam o'r broses gwneud penderfyniadau a dylai wneud yn glir pa faterion sy'n cael eu penderfynu ar bob cam. Dylai'r penderfyniad weithredu fel dogfen ar wahân. Dylai penderfyniadau da fod yn hygyrch oherwydd mae hyn yn ganolog i sicrhau y gwelir bod cyfiawnder yn cael ei gyflawni, gan gynnal hyder yn y broses o reoleiddio proffesiwn osteopathi. I wella ansawdd a chysondeb proses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi canllawiau ar ddrafftio penderfyniadau, y dylai'r Pwyllgor eu hystyried wrth ddrafftio'r rhesymau ysgrifenedig dros ei benderfyniad¹¹.

Amgylchiadau lle mae'n debygol y bydd angen cymryd camau mwy difrifol

Y ddyletswydd gonestrwydd

38. Mae ymddwyn mewn modd agored a gonest pan fydd pethau'n mynd o'i le wrth galon ymarfer osteopathig a gofal iechyd. Mae pwynt D3 o'r Safonau'n ymdrin â'r ddyletswydd gonestrwydd. Mae'r canllawiau ar gyfer D3 yn adlewyrchu'r datganiad ar y cyd ar onestrwydd a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr statudol gweithwyr proffesiynol gofal iechyd.
39. Pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le o ran gofal claf sy'n peri niwed neu ofid, neu sydd â'r potensial i wneud hynny, yna rhaid i'r osteopath ddweud wrth y claf, a chynnig eglurhad ynghylch yr hyn a ddigwyddodd ac effeithiau hynny ynghyd ag ymddiheuriad mewn amgylchiadau priodol.
40. Felly dylai'r Pwyllgor ystyried eglurhad ac ymddiheuriad didwyll y person cofrestredig fel camau cadarnhaol cyn, ac yn ystod, gwrandawriad fel ffactor lliniaru. Mae hyn oherwydd gall dangos tystiolaeth o ddealltwriaeth o'r hyn a aeth o'i le a'r hyn y gellir ei wneud i atal pethau rhag mynd o'i le i rywun arall yn y dyfodol ac felly gyfrannu at ofal mwy diogel i gleifion yn y dyfodol.
41. Dylai'r Pwyllgor nodi, at ddibenion y gwrandawriad, na fydd ymddiheuriad a roddir gan y person cofrestredig ynddo'i hun yn cael ei drin fel cyfaddefiad o euogrwydd. Fodd bynnag, lle y penderfynwyd bod person cofrestredig wedi cymryd camau bwriadol i osgoi bod yn onest â chlaf, neu ag unrhyw un sy'n ymwneud â gofal y claf, neu i atal rhywun arall rhag bod yn onest, dylai'r Pwyllgor ystyried hyn yn nodwedd waethygu oherwydd nid yw buddion y claf yn cael eu rhoi yn gyntaf.

Lleisio pryderon

42. Mae'n hanfodol bod amgylchedd a diwylliant ym maes osteopathi lle y cefnogir unigolion i leisio pryderon a chymryd camau priodol lle bo pryderon ynghylch safonau gofal a'r risgiau i

¹¹ Guidance for the Professional Conduct Committee on Drafting Determinations', Chwefror 2017

ddiogelwch cleifion. Mae dyletswydd osteopath i leisio pryderon i'w gweld ym mhwynt C4 y Safonau, sy'n nodi: 'You must take action to keep patients from harm.' Mae gan bob osteopath gyfrifoldeb i sicrhau eu bod hwy ac unigolion yn eu practis yn cael eu galluogi i leisio pryderon mewn modd agored a diogel. Gall peidio lleisio pryderon beri neu gyflwyno risg sylweddol i gleifion.

43. Dylai'r Pwyllgor roi ystyriaeth ddifrifol i achos o dorri amodau'r safon hon a dylai ei ystyried yn ffactor gwaethygu.

Anonestrwydd

44. Dywed y Safonau bod yn rhaid i osteopathiaid ymddwyn yn onest yn ei drafodion personol a phroffesiynol. Mae hyn yn cwmpasu bod yn onest â chydweithwyr a/neu gyflogwyr drwy gymryd rhan mewn adolygiadau ac ymchwiliadau ar gais. Gall diffyg gonestrwydd yn ymarfer person cofrestredig gael effaith niweidiol ar ofal cleifion hefyd.
45. Er na fydd yn arwain at niwed uniongyrchol i gleifion o reidrwydd, gall anonestrwydd mewn perthynas â materion y tu allan i ymarfer clinigol person cofrestredig fod yn arbennig o ddifrifol oherwydd gall hyn danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathi.
46. Dylai'r Pwyllgor ystyried yr holl dystiolaeth mewn achosion unigol wrth roi ei farn a gwneud penderfyniad sy'n briodol a digonol. Fodd bynnag, lle bo'r anonestrwydd yn barhaus a/neu wedi'i guddio, mae hyn yn debygol o ddwyn anfri ar y proffesiwn a bydd yn briodol gosod sancsiwn ar ben uchaf y raddfa i adlewyrchu difrifoldeb yr ymddygiad.

Camymddwyn rhywiol

47. Mae pwynt D2 y *Safonau Ymarfer Osteopathig* yn dweud bod yn rhaid i osteopath sefydlu a chynnal ffiniau proffesiynol gyda chleifion a pheidio â chamddefnyddio ei statws proffesiynol a'i safle o ymddiriedaeth. Gall methu â sefydlu a chynnal ffiniau rhywiol, yn benodol, gael effaith hynod o niweidiol ar gleifion.
48. Mae camymddwyn rhywiol yn cwmpasu amrywiaeth eang o ymddygiad sy'n cynnwys euogfarnau troseddol, camymddwyn rhywiol â chleifion, cydweithwyr ac eraill, a thorri ffiniau proffesiynol drwy archwilio cleifion yn gorfforol heb ganiatâd. Mae'n gamddefnydd o'r ymddiriedaeth arbennig sydd gan weithiwr proffesiynol gofal iechyd. Mae'n tanseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiwn osteopathi yn ddifrifol a gall fod yn berygl i ddiogelwch cleifion.
49. Wrth ddod i benderfyniad, dylai'r Pwyllgor ystyried y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (y Cyngor Rhagoriaeth Rheoleiddio Gofal Iechyd gynt) sef: 'Clear sexual boundaries between healthcare professionals and patients: guidance for fitness to practise panels' (2008), yn benodol, y ffactorau gwaethygu a lliniaru sy'n berthnasol i sancsiwn.
50. Lle profir achos o gamymddwyn rhywiol, yn enwedig mewn amgylchiadau lle torrwyd ffiniau proffesiynol sy'n ymwneud â chleifion sy'n agored i niwed, gan gynnwys rhai â phroblemau emosiynol, pobl ifanc sy'n gorfforol anabl a phobl ag anableddau dysgu, dylai'r Pwyllgor ei ystyried yn fater difrifol iawn, lle bydd eu tynnu oddi ar y gofrestr yn debygol o gael ei ystyried yn sancsiwn priodol a chymesur.

Gwahaniaethu yn erbyn cleifion, cydweithwyr a phobl eraill

51. Mae D6 o'r Safonau Ymarfer Osteopathig yn nodi bod yn rhaid i osteopath drin cleifion yn deg a chydabod amrywiaeth a gwerthoedd unigol.

52. Rhaid i osteopathiaid beidio â gwahaniaethu'n uniongyrchol nac yn anuniongyrchol yn erbyn eraill nac aflonyddu arnyn nhw ar sail nodwedd warchodedig¹². Mae gwahaniaethu yn tanseilio hyder y cyhoedd mewn osteopathiaid a gall fod yn risg ddifrifol i ddiogelwch cleifion.
53. Pan fo'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau wedi canfod achos sy'n ymwneud â gwahaniaethu yn erbyn cleifion, cydweithwyr neu bobl eraill sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig naill ai o fewn neu y tu allan i fywyd proffesiynol osteopathiaid, dylai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau ystyried hyn yn ddifrifol iawn a bydd yn briodol gosod sancsiwn ar ben uchaf y raddfa i adlewyrchu difrifoldeb yr ymddygiad.

Cyflwyno Cyngor lle na cheir canfyddiad o Ymddygiad Proffesiynol Annerbyniol

54. Yn *Spencer v Cyngor Osteopathig Cyffredinol*, ystyriodd Mr Justice Irwin, wrth ddod i'r casgliad nad oedd canfyddiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol yn awgrymu trothwy is na'r hyn sy'n bodoli ar gyfer camymddwyn mewn deddfwriaeth feddygol a deintyddol, nad oedd unrhyw beth i atal y Pwyllgor rhag rhoi cyngor i berson cofrestredig lle bo cyhuddiadau wedi'u gwneud sy'n gyfystyr â thorri'r *Safonau Ymarfer Osteopathig* ond lle nad yw anghymhwysedd proffesiynol nac ymddygiad proffesiynol annerbyniol wedi'i gadarnhau. Nododd Justice Irwin hefyd, pe bai'r Senedd wedi bwriadu rhoi pwerau ffurfiol i rybuddio neu geryddu i'r Cyngor mewn amgylchiadau lle'r oedd person cofrestredig wedi torri'r *Safonau* ond nad oedd yn euog o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, byddai wedi bod yn syml iawn gwneud hynny.
55. Er nad yw methiant i gydymffurfio â darpariaeth y *Safonau Ymarfer Osteopathig* yn ymddygiad proffesiynol annerbyniol ynddo'i hun, gallai fod yn gymesur i'r Pwyllgor roi cyngor i'r person cofrestredig lle y bydd wedi dod i'r casgliad nad yw'r trothwy ymddygiad proffesiynol annerbyniol wedi'i gyrraedd mewn achos penodol. Rhagwelir y byddai unrhyw gyngor a roddir yn mynd i'r afael â meysydd penodol ymddygiad neu berfformiad y person cofrestredig yn y dyfodol.
56. Byddai rhoi cyngor mewn achosion priodol lle nad yw'r ymddygiad a honnir yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymddygiad proffesiynol annerbyniol yn gyson ag amcan cyffredinol y Cyngor a byddai'n cynorthwyo i gynnal hyder yn y proffesiwn osteopathig wrth hybu a chynnal safonau proffesiynol priodol.
57. Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu bod cyngor yn briodol, rhaid iddo nodi'n glir beth y dylai'r cyngor hwnnw fod gan gyfeirio at y *Safonau Ymarfer Osteopathig*. Rhaid i unrhyw gyngor fod yn berthnasol i'r cyhuddiadau a brofwyd gan y Pwyllgor.

Nodyn: Diben cyngor yw lliniaru'r risg o dorri'r *Safonau Ymarfer Osteopathig* yn y dyfodol lle bu tramgwyddau yn y gorffennol o bosibl. Ni fydd unrhyw gyngor a roddir yn cael ei gofnodi ar y Gofrestr o Osteopathiaid gan nad yw'n sancsiwn ffurfiol ac ni fyddai unrhyw gyfyngiadau'n cael eu gosod ar gofrestrriad yr osteopath chwaith.

¹² Y 'Nodweddion gwarchodedig' a gwmpesir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw: oedran, anabledd, hil, rhyw, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd a chred, a chyfeiriadedd rhywiol.

Rhan Dau - Sancsiynau

58. Ni fwriedir i sancsiynau gosbi, er y gallent gael yr effaith honno. Yn hytrach, eu diben yw diogelu cleifion a'r budd cyhoeddus ehangach, sy'n cynnwys diogelu aelodau'r cyhoedd, cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn a chynnal y safonau ymddygiad a chymhwysedd priodol.
59. Rhaid i'r Pwyllgor osod sancsiynau pan fydd yn canfod ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol neu pan fydd euogfarn droseddol yn berthnasol i ymarfer osteopathig y person cofrestredig.
60. Rhaid i'r sancsiwn fod yn gymesur a mynd i'r afael â'r diffygion penodol a amlygwyd gan yr achos. Er enghraifft, er y gallai cerydd fynd i'r afael ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol penodol, lle y bydd yr osteopath wedi dangos dealltwriaeth a'i fod yn annhebygol o'i ailadrodd, mae'n annhebygol y bydd yn mynd i'r afael â chanfyddiad o anghymhwysedd proffesiynol.
61. Wrth bennu'r sancsiwn priodol, dylai'r Pwyllgor ystyried pob sancsiwn yn ei dro mewn trefn esgynnol gan ddechrau gyda'r mwyaf difrifol. Wrth wneud hynny, mae'n hanfodol bod y Pwyllgor yn gwerthuso'r nodweddion lliniarol yn ogystal â'r nodweddion gwaethygu ac yn eu cydbwysu yn erbyn ei gilydd wrth bennu sancsiwn cymesur.
62. Dylid dewis y sancsiwn lleiaf llym sy'n ymdrin yn ddigonol â'r materion a'r pryderon a nodwyd.

Cerydd

63. Cerydd yw'r sancsiwn lleiaf y gellir ei roi a gall fod yn briodol lle bo'r methiant neu'r ymddygiad ar ben is y sbectrwm. Nid yw cerydd yn cael effaith uniongyrchol ar ymarfer osteopath a dim ond os yw'r osteopath yn gymwys i barhau i ymarfer heb unrhyw gyfyngiadau y dylid ei roi. Bydd cerydd yn cael ei gyhoeddi a bydd yn aros ar gofnod addasrwydd i ymarfer yr osteopath.
64. Gall cerydd fod yn briodol pan fydd y rhan fwyaf o'r ffactorau a ganlyn yn bresennol (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth):

- a. Nid oes tystiolaeth i awgrymu bod yr osteopath yn cynrychioli unrhyw berygl i'r cyhoedd.
- b. Mae'r osteopath wedi dangos dealltwriaeth o'i fethiannau.
- c. Roedd yr ymddygiad yn ddigwyddiad untro.
- d. Nid oedd yr ymddygiad yn fwriadol.
- e. Ni ailadroddwyd yr ymddygiad ers y digwyddiad.
- f. Roedd yr osteopath wedi gweithredu o dan bwysau.
- g. Mae'r osteopath wedi cyfleu gwir edifeirwch.
- h. Mae tystiolaeth bod yr osteopath wedi cymryd camau adsefydlu/cywiro.
- i. Mae gan yr osteopath hanes blaenorol da.

65. Bydd y penderfyniad i geryddu ¹³ osteopath yn dod i rym ymhen 28 diwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad am y penderfyniad i'r osteopath, oni bai bod apêl yn erbyn y penderfyniad.

Gorchymyn Amodau Ymarfer

66. Mae Gorchymyn Amodau Ymarfer (y Gorchymyn) yn caniatáu i'r osteopath barhau i ymarfer wrth ddarparu amddiffyniad i'r cyhoedd a chleifion. Bydd y sancsiwn hwn yn effeithio ar ymarfer osteopath a gall fod yn briodol pan fydd y rhan fwyaf o'r ffactorau a ganlyn i'w gweld (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth):

- a. Mae'n bosibl nodi agweddau ar wahân ar ymarfer osteopath sy'n peri problemau.
- b. Amodau yw'r ffordd fwyaf priodol a chymesur o fynd i'r afael â chanfyddiadau'r Pwyllgor.
- c. Nid yw unrhyw anghymhwysedd a ganfyddir i'r fath raddau y bydd cleifion yn wynebu risg uniongyrchol neu anuniongyrchol o ganlyniad i barhad y cofrestriad gydag amodau.
- d. Nid oes tystiolaeth o broblemau niweidiol, dwfn o ran personoliaeth neu agwedd.
- e. Mae'r osteopath wedi dangos dealltwriaeth o'i fethiannau ac mae tystiolaeth o barodrwydd i ymateb yn gadarnhaol i amodau sy'n gwella ansawdd ei waith a hybu diogelwch cleifion.
- f. Mae'r osteopath wedi dangos parodrwydd i fod yn agored ac yn onest â chleifion pan fydd pethau'n mynd o'i le.
- g. Bydd yr amodau'n amddiffyn y cyhoedd yn ystod y cyfnod y byddant mewn grym.
- h. Mae'n bosibl llunio amodau priodol ac ymarferol y gellir eu dilysu a'u monitro'n hawdd.

67. Gall yr amodau atal yr osteopath rhag ymarfer mewn ffordd benodol neu ar categori penodol o gleifion. Mae'n bosibl y bydd gofyn i'r osteopath ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol ar feysydd penodol o'i ymarfer ac mae'n bosibl y bydd gofyn iddo basio prawf cymhwysedd annibynnol a gwrthrychol. Wrth lunio amodau, dylai'r Pwyllgor ystyried y Canllawiau ar gyfer y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ar lunio Gorchmynion Amodau Ymarfer.¹⁴
68. Dylid gwneud amcanion yr amodau'n ddigon clir i'r osteopath. Dylai'r Pwyllgor nodi pob diffyg yn ei dro ac egluro sut y bwriedir i'r amodau fynd i'r afael â nhw. Dylai'r Pwyllgor egluro unrhyw gynigion neu wybodaeth a fyddai o gymorth mewn gwrandawriad arolygu yn y dyfodol hefyd. Dylai'r amodau fod:
- a. yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd
 - b. yn berthnasol i'r diffygion

¹³ Wrth benderfynu a yw'n briodol neu'n gymesur gwaredu achos a ddygwyd o dan y weithdrefn Rheol 8, dylai'r Pwyllgor ystyried Nodyn Ymarfer Gwarediad Cydsyniol Rheol 8

¹⁴ osteopathy.org.uk/news-and-resources/document-library/publications/conditions-of-practice-order-guidance/

- c. yn gymesur â'r diffygion
- d. yn ymarferol
- e. yn fesuradwy
- f. yn bosibl eu monitro a
- g. dylid eu dwyn i sylw'r osteopath, yn hytrach na thrydydd parti.

69. Rhaid i'r Pwyllgor bennu'r cyfnod y bydd y Gorchymyn ar waith a/neu bennu bod yn rhaid i'r person cofrestredig ymgymryd â phrawf cymhwysedd. Dylai unrhyw gyfnod penodedig fod y lleiaf y mae'r Pwyllgor yn ei ystyried yn angenrheidiol i ddiogelu'r cyhoedd ac ni ddylai fod yn hwy na thair blynedd.

70. Bydd Gorchymyn yn dod yn weithredol ymhen 28 niwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad y cyflwynir hysbysiad o'r penderfyniad i'r osteopath, oni bai bod apêl yn erbyn y penderfyniad. Ar unrhyw adeg tra bod y Gorchymyn yn weithredol, gall y Pwyllgor:

- a. estyn cyfnod gweithredu'r Gorchymyn
- b. dirymu neu amrywio unrhyw rai o'r amodau
- c. ei gwneud yn ofynnol i'r osteopath basio prawf cymhwysedd a phennu erbyn pryd y dylid gwneud hynny
- d. lleihau cyfnod gweithredu'r gorchymyn
- e. dirymu'r gorchymyn.

Atal cofrestriad yr osteopath dros dro

71. Bydd Gorchymyn Atal Dros Dro yn atal yr osteopath rhag ymarfer fel osteopath am hyd y Gorchymyn. Bydd y sancsiwn hwn yn briodol ar gyfer troseddau mwy difrifol a phan fydd rhai neu bob un o'r ffactorau a ganlyn i'w gweld (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth):

- a. Torrwyd y *Safonau Ymarfer Osteopathig* yn ddifrifol ond nid yw'r ymddygiad yn sylfaenol anghydnaws â pharhad y cofrestriad.
- b. Ni fyddai tynnu'r osteopath oddi ar y Gofrestr o fudd i'r cyhoedd, ond ni fyddai unrhyw sancsiwn llai nag atal dros dro yn ddigon i ddiogelu'r cyhoedd a chynnal hyder yn y proffesiwn.
- c. Gellir defnyddio atal dros dro i anfon neges i'r person cofrestredig, y proffesiwn a'r cyhoedd fod natur ddifrifol ymddygiad yr osteopath yn resynus.
- d. Mae perygl i ddiogelwch cleifion os na fydd cofrestriad yr osteopath yn cael ei atal dros dro.
- e. Mae'r osteopath wedi dangos y potensial i adfer neu ailhyfforddi.
- f. Nid yw'r osteopath wedi dangos digon o ddealltwriaeth i deilyngu gosod amodau neu ni fyddai amodau'n ymarferol.

72. Dylai'r Pwyllgor bennu hyd y Gorchymyn, ac ni all fod yn hwy na thair blynedd. Rhaid i'r Pwyllgor roi rhesymau dros hyd y Gorchymyn Atal Dros Dro y mae'n penderfynu ei weithredu, gan gynnwys y ffactorau a ystyriodd wrth bennu'r hyd.¹⁵ Mae'n bosibl y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y ffactorau a ganlyn wrth bennu hyd yr ataliad dros dro:
- Difrifoldeb y canfyddiadau ynghyd â'r ffactorau lliniaru/gwaethygu
 - Bod digon o amser wedi'i roi i'r osteopath ddatblygu dealltwriaeth a/neu adfer ei ymddygiad
 - I ba raddau mae ymddygiad yr osteopath wedi peryglu cleifion/dwyn anfri ar y proffesiwn.
73. Fel egwyddor gyffredinol, os yw'r osteopath wedi'i ganfod yn euog o drosedd ddifrifol, ni ddylid caniatáu iddo aildddechrau ymarfer nes ei fod wedi cwblhau ei ddedfryd yn foddhaol.¹⁶
74. Ar unrhyw adeg tra bo'r Gorchymyn Atal Dros Dro ar waith, gall y Pwyllgor:
- estyn cyfnod yr ataliad dros dro neu ei estyn ymhellach neu
 - gwneud Gorchymyn Amodau Ymarfer y mae'n rhaid i'r osteopath gydymffurfio ag ef os yw'n aildddechrau ymarfer osteopathi ar ddiwedd y cyfnod atal.
75. Bydd Gorchymyn Atal Dros Dro yn weithredol ymhén 28 niwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad am y penderfyniad i'r osteopath, oni bai bod apêl.
76. Dylai'r Pwyllgor ystyried felly a yw'n angenrheidiol gosod gorchymyn atal dros dro hefyd, er mwyn diogelu aelodau'r cyhoedd.
77. Lle bo'r Pwyllgor wedi gosod cyfnod o atal dros dro, rhaid iddo nodi hefyd y bydd Pwyllgor yn adolygu'r achos mewn gwrandawriad adolygu cyn diwedd y cyfnod hwnnw; a pha wybodaeth fydd ei hangen ar y Pwyllgor yn y gwrandawriad adolygu wedi'i ailymgynnull.

Tynnu enw'r osteopath oddi ar y Gofrestr

78. Tynnu enw oddi ar y gofrestr yw'r sancsiwn mwyaf difrifol y gellir ei osod a dylid ei ddefnyddio pan nad oes unrhyw fodd arall o ddiogelu'r cyhoedd a/neu gynnal hyder yn y proffesiwn osteopathig. Mae'r sancsiwn hwn yn debygol o fod yn briodol pan fydd yr ymddygiad yn sylfaenol anghydnaws â chofrestriad â'r Cyngor ac yn cynnwys unrhyw rai o'r canlynol (nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth):
- Difaterwch diofal neu fwriadol ynghylch yr egwyddorion sydd yn y *Safonau Ymarfer Osteopathig* a diogelwch cleifion.
 - Ymadawriad difrifol oddi wrth y safonau proffesiynol perthnasol a amlinellir yn y *Safonau Ymarfer Osteopathig* sy'n anghydnaws â pharhad y cofrestriad.

¹⁵ Dylai'r Pwyllgor ystyried y canllawiau ar gyfer y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol ar Ddrafftio Penderfyniadau, Chwefror 2017

¹⁶ CHRP v GDC a Fleishmann [2005]

- c. Mae yna berygl o niwed i eraill gan yr osteopath (cleifion neu fel arall), naill ai'n fwriadol neu drwy anghymhwysedd, yn enwedig pan fo risg barhaus i gleifion.
 - d. Camddefnydd difrifol o swyddogaeth/ymddiriedaeth (yn enwedig yn ymwneud â chleifion sy'n agored i niwed) neu dorri hawliau cleifion yn ddifrifol.
 - e. Euogfarnau neu rybuddion am droseddau rhywiol, gan gynnwys ymwneud mewn unrhyw ffordd â phornograffi plant, neu ganfyddiadau o gamymddwyn rhywiol.
 - f. Troseddau sy'n cynnwys trais.
 - g. Lefel ddifrifol o anonestrwydd (yn enwedig lle mae'n barhaus neu wedi'i gelu).
 - h. Diffyg dealltwriaeth barhaus o ddifrifoldeb gweithredoedd neu ganlyniadau.
 - i. Diffyg cymhwysedd difrifol a dim tystiolaeth o welliant.
79. Bydd gorchymyn i dynnu enw osteopath oddi ar y Gofrestr yn weithredol ymhen 28 diwrnod, gan ddechrau ar y dyddiad y cyflwynir yr hysbysiad o'r penderfyniad i'r osteopath, oni bai bod apêl.
80. Dylai'r Pwyllgor ystyried felly a yw'n angenrheidiol gweithredu gorchymyn atal dros dro hefyd, er mwyn diogelu cleifion ac aelodau'r cyhoedd.